# Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn

**Heol y Bardd, Porth Tywyn,**
**Sir Gaerfyrddin SA16 0NL**
**Ffôn:- 01554 832101**
**Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru**
**www.ysgolparcytywyn.co.uk**
**Pennaeth / Headteacher : Mr C Davies**


14/07/2021

## Trefniadau ailagor Medi 2021

Annwyl rieni,

Yn dilyn cyhoeddiad Gweinidog Addysg Cymru, rydym bellach mewn sefyllfa i rannu gyda chi ein cynlluniau ar gyfer ailagor ein hysgol yn mis Medi. Bydd yr ysgol yn ailagor i'r disgyblion ar ddydd Iau, Medi 2il 2021. Edrychwn ymlaen yn fawr at groesawu'r plant yn ôl i'r ysgol ym mis Medi ac at weld agweddau o fywyd yr ysgol yn dychwelyd i normal. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i barchu a chadw at ambell mesur lliniaru sydd ar waith i leihau'r risg o drosglwyddo yn yr ysgol a'r gymuned ehangach.

1. Bydd yr ysgol yn cychwyn am 9.00am ac yn gorffen am 3.20pm i blant Meithrin Llawn amser i Flwyddyn 3 ac am 3:25 i blant Blwyddyn 4 i 6. Amseroedd plant meithrin rhan amser yw 9:00-11:30. (Ni fyddwn yn 'staggro' yn y boreau a'r prynhawniau).
2. Bydd gatiau'r ysgol yn agor am 8.45am i bob blwyddyn ysgol a bydd staff wrth y gatiau i groesawu'r plant. Bydd y plant yn dod i mewn trwy'r pwyntiau trosglwyddo canlynol :
   - Meithrin rhan amser – derbynfa
   - Meithrin Llawn amser i Flwyddyn 3 – y gât wrth y brif fynedfa
   - Blwyddyn 4 i 6 – y gât ger maes parcio staff / cegin yr ysgol.

Dylai pob disgybl fod yn y dosbarth i gofrestru am 9:00 am. Gan y bydd cynnydd yn nifer y rhieni ar y safle yn ystod cyfnodau gollwng, rydym wedi caniatáu ffenestr 15 munud lle gallwch ollwng eich plentyn. Mae'n bwysig nad yw rhieni'n ymgynnull ar dir yr ysgol - gadewch yn syth ar ôl i'ch plentyn gael ei ollwng. Gwerthfawrogir eich cymorth a'ch cydweithrediad.

3. Bydd y Clwb Brecwast Am Ddim (8.15am) yn parhau. Mae ein Clwb Brecwast yn agored i blant gweithwyr allweddol a disgyblion bregus i.e y rhai a ddefnyddiodd y ddarpariaeth y tymor diwethaf. Byddwn yn adolygu'r cyfyngiadau ar y ddarpariaeth hon ym mis Medi ac yn eich hysbysu am unrhyw newidiadau. Gofynnwn i chi ystyried yn llawn a oes angen lle arnoch gan y gallai olygu y gallai teuluoedd sydd wir angen lle fod ar eu colled! Bydd drysau i'r clwb brecwast (drws allanol y neuadd) yn agor am 8:15 ac yn cau am 8:30yb.
4. Nid yw grwpiau cyswllt yn cael eu hargymell mwyach gan Llywodraeth Cymru a defnyddir y broses Profi, Olrhain a Diogelu i nodi cysylltiadau agos dysgwyr sydd wedi profi'n bositif. Fodd bynnag, fel ysgol, bydd y drefn o gadw'r plant mewn swigod dosbarth yn parhau o fewn yr ysgol wrth i blant dychwelyd. Byddwn yn adolygu hyn yn ystod yr hanner tymor cyntaf. Ni fyddwn yn gweithredu systemau swigod pan mae'r plant allan yn chwarae.
5. Bydd staff yn parhau i wisgo mygydau os fyddant yn agos at staff eraill. Gofynnwn i bob rhiant/ymwelwr wisgo mwgwd os fyddant yn dod i'r ysgol.
6. Byddwn yn parhau i annog y disgyblion i olchi eu dwylo yn aml - dwr a sebon neu ddiheintio.
7. Byddwn yn parhau i agor y ffenestri / drysau i gael digon o awyr iach yn yr ystafelloedd.
8. Bydd y plant yn cael mynd i'r neuadd/ffreutur ond yn cael eu cadw ar wahân yno fesul blynyddoedd e.e. cinio, gwasanaethau ayb.
9. Ni fydd clybiau allgyrsiol am yr hanner tymor cyntaf o leiaf. Byddwn yn edrych ar y sefyllfa wrth i ni ddychwelyd gyda'r gobaith o ail ddechrau clybiau yn raddol ar ol hanner tymor Hydref.

10. Ni fydd unrhyw blentyn yn gadael yr ysgol tan fod rhiant yna i'w gasglu. Dim ond plant Blwyddyn 5 a 6 bydd yn cael cerdded o'r ysgol heb oedolyn unwaith i'r rhiant llenwi ffurflen i roi caniatâd https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4_TzS3ZEGUCRtgHRR5k3xoady7-yhIp_mpJV6wNKpURTlXRTY3U0hVSE1UWTZBVEE5WDM0RkNBVi4u

* Mae'n bwysig nodi y gall y gweithgareddau gweithredol hyn newid yn dibynnu ar gyngor Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn nes at fis Medi.

Wrth i ni baratoi ar gyfer yr ychydig fisoedd nesaf, hoffwn achub ar y cyfle hwn i'ch hysbysu am rai dyddiadau allweddol ar gyfer Tymor yr Hydref.

| Dyddiad | Pwy? | Digwyddiad |
|---|---|---|
| Mercher / *Wednesday* 01/09/21 | Ysgol gyfan / *Whole school* | Diwrnod HMS – *ysgol ar gau i blant* |
| Iau / Thursday 02/09/21 | Ysgol gyfan / *Whole school* | Dechrau tymor yr Hydref i blant / *Start of Autumn term for pupils* |
| Llun / *Monday* 27/09/21 | Ysgol gyfan / *Whole school* | Diwrnod HMS – *ysgol ar gau i blant* |
| 25-31/10/21 | Ysgol gyfan / *Whole school* | Hanner tymor / Half term |
| Llun / *Monday* 01/11/21 | Ysgol gyfan / *Whole school* | Diwrnod HMS – *ysgol ar gau i blant* |
| 02/11/21 | Ysgol gyfan / *Whole school* | Plant yn dychwelyd / *Children return* |
| Mawrth / *Tuesday* 21/12/21 | Ysgol gyfan / *Whole school* | Diwedd tymor / *Last day of term* |

A gaf i ddymuno gwyliau haf hapus a diogel i chi i gyd. Diolch unwaith eto am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad parhaus.

Yn gywir,

***C Davies***
Pennaeth / Headteacher